

Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin

Cofnodion y Cyfarfod

Dydd Iau, 28 Ebrill 2022

Canolfan Tywi, Llandeilo, 6pm

Yn Bresennol: Aelodau:

Mark Hadley (MH) - Cadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol
Richard Leggett (RL)
Mo Rapley (MR)
Dave Gravelle (DG)
Paul Barrett (PB)
Sean Brown (SB)
Phil Snaith (PS)
Dave Gravelle (DG)
Wyn Owen (WO)
Geoff Williams (GW)
Tara-Jane Sutcliffe (TS)
Peter Griffiths (PG)

Ysgrifennydd - Caroline Ferguson (CF) – Rheolwr Mynediad i Gefn Gwlad
Cyngor Sir Caerfyrddin

Ymgynghorwyr / Sylwedyddion / Siaradwyr / Y Cyhoedd

Phil Morgan (PM) Arweinydd Tîm Rheoli Tir CNC
Miriam Jones-Walters (MW) Ymgynghorydd Arbenigol Stiwardiaeth Tir CNC
Christopher Nelson (CN) Rheolwr Asedau Priffyrdd (presenoldeb ar-lein)

Ymddiheuriadau: Aelodau:

Karen Burch (KB) - Dirprwy-gadeirydd
Jillie Gardner (JG)
David Stacey (DS)

Ymgynghorwyr/Sylwedyddion:

Stephen Pilliner - Pennaeth Trafnidiaeth a Phriffyrdd Cyngor Sir Caerfyrddin
Neil Thomas – Uwch-reolwr Hamdden Awyr Agored CSC
Y Cyngorydd Hazel Evans – Aelod Cabinet Cyngor Sir Caerfyrddin
Clive Poulton - Cadeirydd Cyngohair Gweithredu dros Anabledd Sir Gaerfyrddin (CDCfA)

Nodyn:

Mae CSC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Gyngor Sir Caerfyrddin
Mae CNC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Gyfoeth Naturiol Cymru
Mae HTC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Hawliau Tramwy Cyhoeddus

EITEM	CMAU GWEITHREDU
Eitem 1 - Croeso ac Ymddiheuriadau Croesawodd MH y fforwm i'r cyfarfod wyneb yn wyneb cyntaf ers mis Mawrth 2020 a chyflwynodd yr aelodau newydd, ac yna cyflwynodd yr holl aelodau eu hunain. Darllenodd CF yr ymddiheuriadau	
Eitem 2 - Aelodau Newydd/Ymddiswyddiadau Aelodau Newydd – 1Geoff Williams, 2Wyn Owen a 3Tara-Jane Sutcliffe – wedi'u cyflwyno fel yr uchod Ymddiswyddiadau - Dim Eitem 3 – System Adrodd Ar-lein Priffyrdd Newydd <i>Ymunodd CN â'r cyfarfod o bell trwy Teams.</i> Cyflwynodd CF CN i aelodau'r fforwm. Darparodd CN arddangosiad gweledol o system adrodd diffygion ar-lein newydd y Priffyrdd sydd wedi bod yn fyw ers mis Tachwedd 2021. Mae'r system yn cynnig adroddiadau ar-lein ar faterion a ganfuwyd ar rwydwaith ffyrdd cyhoeddus Sir Gaerfyrddin drwy wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. Roedd y demo yn cynnwys y broses adrodd a golwg ar ochr cefn swyddfa'r system i weld sut yr ymdrinnir â phroblemau yr adroddwyd amdanynt. Dylai'r system alluogi adrodd ar faterion/diffygion ar bob ffordd o ffyrdd UCR i ffyrdd A. Dylid rhoi gwybod i'r Adran Briffyrdd am unrhyw ffyrdd sydd ar goll o'r system drwy'r Ganolfan Gyswllt. Dylid rhoi gwybod i'r Adran Briffyrdd am unrhyw broblemau na ellir eu cofnodi drwy'r system ar-lein drwy'r Ganolfan Gyswllt. Mae UCRs yn eistedd yn isel ar Hierarchaeth y Rhwydwaith Priffyrdd, mae hyn yn ystyriaeth i reolwyr/arolygwyr Priffyrdd pan fyddant yn blaenoriaethu eu gwaith. Gofynnodd yr aelodau am y cynnydd ar system adrodd ar-lein gyfatebol HTC sef CAMSWeb.	

Rhoddodd CF ddiweddariad i'r aelodau ar y sefyllfa bresennol. Cafwyd adborth defnyddiol gan y defnyddwyr a ddewiswyd ynghylch lansiad tawel y system ym mis Chwefror ac mae datblygwyr meddalwedd (Exegesis) yn gweithio drwy bob eitem. Mae staff Mynediad Cefn Gwlad CSC hefyd wedi bod yn defnyddio'r system ac yn rhoi adborth i Exegesis. Mae angen rhai newidiadau i wella'r system ond dim byd a ddylai atal y lansiad llawn cyn hir. Yn ddelfrydol, gellir cysylltu'r system Priffyrdd a CAMSWeb yn y dyfodol fel y gellir cyfeirio defnyddwyr rhwng y ddwy system. Yna trafodwyd materion a godwyd gan y cyhoedd trwy CAMSWeb gan yr aelodau. CF - Nid yw'n fwriad gan CSC i arddangos materion HTC ar CAMSWeb sy'n wynebu'r cyhoedd. Cytunodd RL a SB y byddai'n well peidio fel bod pobl yn adrodd ar bob mater, nid cael eu hannog i beidio â gwneud pan fydd yn bodoli eisoes ar y map. Os bydd pob defnyddiwr yn adrodd am y problemau y maent yn dod ar eu traws bydd yn darparu data 'go iawn' a darlun cywir o'r galw. Holodd GW am oblygiadau yswiriant i Gymdeithasau Cerdded pe bai HTC yn cael eu dangos fel rhai sydd wedi'i cau ar CAMSWeb. Ni allai CF ragweld unrhyw effaith ar yswiriant. Bydd llwybrau sy'n destun cau cyfreithiol dros dro yn cael eu dangos fel rhai 'ar gau' ac ni ddylid eu defnyddio. Fel arall, y bwriad yw tynnu sylw at yr holl lwybrau a ystyrir yn agored megis llwybrau Categori A a B a hyrwyddir (Categori C yn y dyfodol o bosibl) heb awgrymu bod eraill ar gau. RL – Dylai arweinwyr Cymdeithasau Cerdded fod yn rhagarchwilio HTC cyn eu defnyddio ar gyfer cerdded. GE – Ai llwybrau a hyrwyddir yn unig a gaiff eu dangos ar y system? CF – Bydd holl rwydwaith HTC Cyngor Sir Caerfyrddin yn weladwy. RL – pryd y gall y system gael ei lansio? CF – Dylai'r wefan gael ei lansio'n llawn ddechrau Mehefin oni bai bod Exegesis yn ystyried bod angen oedi. <i>Gadawodd CN y cyfarfod.</i> Eitem 4 – Cynllun Creu Coetir CNC – Brownhill, Llangadog. <i>Ymunodd MW â chyfarfod o bell trwy Teams</i> Cyflwynodd MW Gynllun Creu Coetir Brownhill i'r aelodau.	CF
--	------------------

Mae'r cynllun yn rhan o brosiect ehangach i wneud iawn am golli ystad coetir oherwydd tanau gwyllt, clefydau ac ati a helpu i gyrraedd targedau Cytundeb Hinsawdd Paris.

Mae CNC wedi prynu 350 hectar o dir i'w blannu hyd yn hyn a fydd yn darparu cyfran fechan o'r holl blannu sydd ei angen.

Mae Brownhill yn un o 3 safle ochr yn ochr â safleoedd yn Wrecsam a Chaerffili a bydd yn gynllun Coetir i goffáu'r rheiny a gollwyd yn ystod Covid.

Mae sylwadau wedi dod i law ynglŷn â cholli tir amaethyddol da; mae'n bosibl y bydd rhannau o safle Brownhill yn cael eu cadw fel tir amaethyddol cynhyrchiol ochr yn ochr â choetir newydd.

Mae'r dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad a gyhoeddwyd yn dilyn y rownd gyntaf o ddigwyddiadau cyhoeddus wedi mynd heibio, fodd bynnag mae'r cynnig yn dal yn agored i sylwadau a bydd rhagor o ddigwyddiadau ymgynghori/gweithdai dros yr haf i gadarnhau'r cynlluniau.

Gwahoddodd AW gwestiynau.

ON – a yw CNC wedi ystyried coetir cynhyrchu bwyd, roedd Dyffryn Tywi yn arfer bod yn enwog am berllannau afalau a chynhyrchu seidr.

AW – ydy, falch bod hyn wedi'i godi, mae rhannau o'r cynllun yn cael eu hystyried ar gyfer coed ffrwythau.

RL – Ai hwn yw'r safle sydd fwyaf addas ar gyfer cynllun lleihau carbon, byddai'n rhaid i fwyafrif yr ymwelwyr yrru yno, gan fod llwybrau cerdded/beicio yn wael.

MH – Mae mynediad a chyfleusterau fel toiledau i'r cyhoedd sy'n ymweld yn ystyriaeth sylweddol

CF – Er mwyn i'r safle ennill cefnogaeth y gymuned leol mae angen iddynt gael cyswllt cerdded/beicio/marchogaeth o bentref Llangadog fel y gallant fwynhau'r safle heb orfod cerdded ar hyd yr A40 na mynd yn y car. Mae cyfleoedd i gysylltu â'r rhwydwaith HTC yr ochr arall i'r A40 a allai annog ymweliadau di-fodur.

AW - Ar hyn o bryd mynediad oddi ar yr A40 yw'r unig un sydd ar gael ond mae cyfleoedd pellach yn cael eu harchwilio. Bydd maes parcio ar gael a bydd trafodaeth yn cael ei chynnal gyda'r maes gwersylla cyfagos ynglŷn â darparu cyfleusterau toiledau.

MH – A fyddai ailblannu ardaloedd wedi'u datgoedwigo yn well na chreu coetir newydd?

AW – Yn syml, ni fyddai ailblannu'r ardal bresennol o goedwigaeth yn cyrraedd targedau plannu cydadferol.

RL – bydd hyrwyddo yn allweddol; mae'r ardal hon o'r Sir yn cynnig nifer o gyfleoedd mynediad cyhoeddus, ond ychydig o bobl sy'n gwybod amdanynt. Datgelodd taith gerdded ddiweddar ger safle Brownhill rhwng Llangadog a

Llanymddyfri ardal nad oedd wedi'i harchwilio o'r blaen ond rhan ddymunol iawn o'r rhwydwaith HTC. AW – bydd y safle yn cael ei farchnata, fel bod y cyhoedd yn gwybod beth yw pwrpas y cynllun. MH – A allai'r Fforwm Mynediad Lleol weld y cynigion terfynol. AW – Gellid trefnu ymweliad safle gydag aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol i weld y cynllun arfaethedig ar lawr gwlad.	CF
Eitem 5 Adroddiad Prosiectau 2021-22 Darparodd CF wybodaeth atodol i'r adroddiad prosiect a gyflwynwyd i'r aelodau cyn y cyfarfod. Gwnaeth MH sylwadau ar y canlyniadau cadarnhaol ar ôl i'r prosiectau wedi'u cwblhau. Gofynnwyd ynghylch y llwybr amldeffnydd posibl yng ngogledd y Sir unwaith y bydd gwelliannau arfaethedig i'r llwybr seiliedig ar brosiectau wedi'u cwblhau. CF – gellir darparu cynllun amlinellol o'r cynnig llwybr cyffredinol ar gyfer y cyfarfod nesaf. MH – A yw prosiectau 2022-23 wedi'u cynllunio eto? A allai'r aelodau weld rhestr derfynol o brosiectau erbyn cyfarfod mis Gorffennaf? CF – Mae gennym brosiectau mewn golwg, maent i gyd yn y camau cynllunio cynnar ar hyn o bryd. Efallai y byddwn yn gallu darparu manylion llawn am rai prosiectau erbyn mis Gorffennaf ac efallai amlinellu cynlluniau ar gyfer y lleill. SB – A fydd prosiect Cilffyrdd Cydweli yn mynd rhagddo eleni? CF – hoffem gyflawni'r prosiect hwn yn 22-23 gan ei fod yn brosiect o lwybrau blaenoriaeth Canolig-Uchel Categori B ar yr Hierarchaeth Rhwydwaith. Mae ymdrechu i gyflawni'r prosiect yn amodol ar gael Swyddog newydd yn ei swydd ar gyfer rhan ddeheuol Sir Gaerfyrddin; mae angen y swyddog hwn i symud y prosiect yn ei flaen. Y cam cyntaf fydd adolygu nodyn cyngor y Fforwm Mynediad Lleol ac ystyried newidiadau arfaethedig i adroddiad y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig. RL – Bydd angen copi o'r Hierarchaeth Rhwydwaith ar aelodau newydd y Fforwm Mynediad Lleol fel eu bod yn deall ei pherthnasedd yn y gwaith a wneir gan y tîm Mynediad i Gefn Gwlad. Bydd CF yn dosbarthu'r copi	CF MH

Eitem 6 – Cynnal a chadw Cilffyrdd sydd ar Agor i Unrhyw Draffig/Ffyrdd Diddosbarth sy'n destun Gorchymyn Rheoleiddio Traffig

MH - Roedd eitem agenda wedi'i chynnig gan y Dirprwy Gadeirydd, a oedd wedi anfon ei hymddiheuriadau.

MH

Y rheswm am yr eitem oedd i drafod llwybrau cerbydau sy'n destun Gorchymyn Rheoleiddio Traffig sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n anaml gan eu bod ar waelod Hierarchaeth y Rhwydwaith Priffyrdd.

Mae gan y llwybrau hyn werth hamdden o hyd, dylent dal fod yn agored i eraill fel cerddwyr a marchogion. A ellid eu hychwanegu at Hierarchaeth Rhwydwaith HTC o dan lwybrau amldeffnydd Categori B?

ON – mae diffyg arwyddbyst Ffyrdd Diddosbarth, nid yw pobl yn gwybod ble maen nhw.

MH – Ni fwriwyd ymlaen â nodyn cyngor diweddar CNC ynghylch arwyddion safonol ar gyfer Ffyrdd Diddosbarth, felly nid oes unrhyw safon Genedlaethol i Briffyrdd weithio iddi. Bydd yn e-bostio CNC i drafod y pwnc ymhellach.

SB – Efallai y bydd angen adolygu Gorchymynion Rheoleiddio Traffig lle maent wedi'u gosod oherwydd defnydd gormodol, efallai eu bod yn iawn nawr.

MH – Bydd yn creu nodyn cyngor a chynigodd fod eitem yn cael ei chynnwys ar agenda mis Gorffennaf i'w thrafod yn llawn pan fydd cynrychiolydd Priffyrdd wedi anfon ymateb ysgrifenedig neu'n bresennol i drafod gyda'r grŵp.

Eitem 7 – Adroddiadau ar Faterion

Nid oedd adroddiadau ar gael y chwarter hwn.

RL – Nodwyd bod erthygl ddiweddar yn y South Wales Guardian yn gwneud sylw ar lythyr a anfonwyd gan grwpiau Cerddwyr Sir Gaerfyrddin at ymgeiswyr yn yr etholiadau sydd i ddod yn galw arnynt i gyflawni dyletswyddau statudol y Cyngor i ddiogelu a chynnal y rhwydwaith HTC yn y Sir. Roedd y llythyr yn tynnu sylw at y twf yn nifer y materion sydd heb eu datrys ers mis Mehefin 2018, a'r twf yn nifer y materion sydd heb eu datrys ers dros dri mis.

CF – roedd yn ymwybodol o'r erthygl ac mae wedi ymateb i un ymholiad gan Gynghorydd Sir.

RL – Awgrymodd efallai y byddai'r Fforwm Mynediad Lleol eisiau anfon nodyn cyngor newydd at Gynghorwyr newydd am y pryderon presennol ynghylch mynediad HTC.

CF – gallai cyflwyniad i aelodau etholedig yn dilyn cyfnod cyn etholiad fod yn fwy priodol.

Cododd RL hefyd bwnc arolygon DP a'r arolwg rhwydwaith 100% hwyr a gynigiwyd ar gyfer 2021-22.

CF

CF – mae'r tîm yn gweithio'n galed i gael CAMSweb yn fyw fel y gall yr arolwg rhwydwaith 100% ddechrau cyn diwedd 2022.

CF

Mae amserlennu arolwg DP yn y cyfamser yn drwm ar adnoddau ac mae'n anochel y bydd yn gohirio'r arolwg 100% mwy gwerthfawr a'r data cysylltiedig. MH – bydd yn anfon e-bost at SP ynghylch oedi wrth gyflwyno'r arolwg 100% neu arolygon DP.	CF CF
Eitem 8 - Adolygiad 1af Cynllun Cyflawni'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Dyweddodd CF wrth yr aelodau fod yr Awdurdod wedi dewis defnyddio ymgynghorydd i gynnal adolygiad. Derbyniwyd 2 gynnig cyflawni. Gall yr ymgynghorydd llwyddiannus fynychu'r Fforwm Mynediad Lleol nesaf yn dibynnu ar amserlen y penodiad. Eitem 9 - Camau gweithredu yn codi o Gofnodion y cyfarfod diwethaf Digwyddiadau Rêf Anghyfreithlon – Mae angen i CNC/CSC/Heddlu nodi protocol i sicrhau nad yw mynediad cyhoeddus yn dioddef. Copi Gwaith Digidol o fap Tir Comin – heb ei dderbyn o hyd, angen mynd ar ôl Swyddog Tir Comin Cofnodion – angen newid trefn tudalennau gwe ar-lein Staff – Rhoddodd CF y wybodaeth ddiweddaraf ar staffio presennol y tîm Mynediad Cefn Gwlad. Ceisiadau Cynllunio – Cynorthwydd Chwiliadau angen manylion aelodau newydd y Fforwm Mynediad Lleol.	CF
Eitem 10 – Unrhyw Fater Arall CF – Strategaeth Farchogol i'w chwblhau ar ffurf drafft erbyn diwedd Gorffennaf - MH – A ddylai'r Fforwm Mynediad Lleol ofyn am gynnydd yn y gyllideb Mynediad i Gefn Gwlad, a fydd y fforwm yn cael ei glywed? - RL – Polisi Codi Tâl Dodrefn HTC – a ellid dosbarthu'r fersiwn terfynol a'i gynnwys ar agenda mis Gorffennaf i'w drafod? Bydd CF yn ei ddosbarthu ac yn ei gynnwys ar yr agenda. Bydd y Polisi Gorfodi sydd ar ddod, i'w lunio pan fydd y Strategaeth Farchogol wedi'i chwblhau, yn cysylltu â'r Polisi Codi Tâl, a dylai'r ddwy ddogfen ategu ei gilydd. Roedd y Polisi gorfodi wedi'i gynllunio i'w gwblhau yn ystod 21-22 ond bydd bellach yn 22/23. -	CF MH? PAWB ALL/CF

MH – Pryd y bydd yr archifau yn ail-agor? Gallai'r polisi diwygiedig o ran tynnu lluniau gael effaith negyddol. A allai'r Fforwm Mynediad Lleol gyhoeddi nodyn cyngor ar hyn?

CF – Ddim yn gwybod union ddyddiad yr ail-agor, Ebrill oedd y dyddiad olaf a grybwyllwyd. Gallai nodyn cyngor gan y Fforwm Mynediad Lleol ynghylch codi tâl gael ei ystyried er y byddai'n rhaid i'r perthnasedd i rwymedigaethau 'Mynediad Cyhoeddus' y fforwm fod yn glir.

MH – A all CF gael manylion codi tâl ar gyfer aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol

-

MH – Adolygiad Tir Mynediad Agored wedi'i wthio'n ôl o 2024 i 2029.

Dim gwrthwynebiad gan yr aelodau. Fforwm Mynediad Lleol i ymateb?

-

MH - Cyfarfod Cadeiryddion Fforymau Mynediad Lleol ar 5 Mai, ni all MH fod yn bresennol, os na all y dirprwy, a fyddai gan unrhyw aelodau eraill ddiddordeb mewn mynd ar ran Fforwm Mynediad Lleol CSC? Rhowch wybod i MH. Rhowch wybod i MH.

-

MH - Adroddiad Blynyddol y Fforwm Mynediad Lleol, unrhyw sylwadau i MH. Mae angen i CF wneud nodyn rhagarweiniol ar ran Cyngor Sir Caerfyrddin

Daeth y cyfarfod i ben.